21 Ebrill 2026

Annwyl

**Cwyn mewn perthynas â ATISN 26547**

Diolch i chi am eich e-bost a ddaeth i law ar 20 Mawrth. Trosglwyddwyd eich cwyn i mi ar gyfer adolygiad mewnol.

Rwyf bellach wedi cynnal yr adolygiad yn unol â'r weithdrefn a amlinellwyd yng Nghanllaw ymarferol Llywodraeth Cymru ar wneud ceisiadau am wybodaeth sydd ar gael drwy'r post, ar gais, neu ar y rhyngrwyd.

Ar eich pwynt cyntaf, sy'n ymwneud ag ymatal gwybodaeth yn Nogfennau 1 a 2: O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mae'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus ryddhau'r wybodaeth sydd ganddynt a ddisgrifir gan y cais, oni bai bod modd cymhwyso un, neu fwy, eithriad i'r wybodaeth honno. Mae hyn yn golygu – os yw'r wybodaeth sy'n cael ei ddal gan gais yn ymddangos mewn dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth ar faterion eraill - mai dim ond y wybodaeth sy'n dod o fewn y disgrifiad o'r wybodaeth y gofynnwyd amdano raid ei darparu/eithrio.

Rwyf wedi ystyried y wybodaeth a dynnwyd o'r wybodaeth a ryddhawyd yn Nogfennau 1 a 2 a gallaf gadarnhau nad oedd y wybodaeth honno yn dod o fewn y disgrifiad o'r wybodaeth yr oeddech chi'n ceisio cael mynediad iddi ac felly nid oedd rhwymedigaeth arnom i ryddhau'r wybodaeth honno.

Rydych hefyd wedi holi i ni gadarnhau os mwy o wybodaeth yn bodoli yng nghyd-destun eich cais na'r hyn a ryddhawyd i chi yn ein llythyr trosolwg. Gallaf gadarnhau bod manylion pob darn o wybodaeth rydym yn gallu ei gasglu'n rhesymol a chymesur sy'n berthnasol i'ch cais, ac sydd heb ei eithrio o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, wedi ei nodi yn ein gohebiaeth flaenorol ar y mater.

Wedi ystyried y ddau fater felly, nid wyf yn cynnal eich cwyn.

**Y camau nesaf**

Fel y nodwyd, rwyf wedi ystyried eich cwyn yn unol â'r weithdrefn a amlinellwyd yn Gofyn am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r post ar gais neu ar y rhyngrwyd.

Os ydych yn parhau'n anfodlon â'r ateb hwn, mae gennych hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Yn gywir,